

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 18/06/20

Yn bresennol: Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes (Cadeirydd), D.L.Jones, E.Lovgreen, M.Sarnacki, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr J.W.Parry, K.Richards

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Blodau ar y Maes

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y blodau i gyd wedi marw yn y potiau ar y Maes, a'i fod ar ddeall mai HWB oedd yn trefnu'r blodau yn y gorffennol.
- (2) Ei fod wedi cysylltu gyda'r Cyngorydd Edgar Owen, Cadeirydd HWB, a fydd gyda fwy o fanylion o ran eu cynlluniau wythnos nesaf. Roedd y Clerc wedi trefnu i siarad eto efo fo wythnos nesaf.
- (3) Bod y "lockdown" wedi effeithio ar bethau.

Nodwyd y syniad o gael blodau dros dro yno er mwyn rhoi lliw yno erbyn yr haf .

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo Frongoch er mwyn trefnu blodau ar y Maes cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

4. Cystadleuaeth Garddio

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu symud beirniadu Cystadleuaeth Gerddi Caernarfon o wythnos ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol i wythnos olaf lawn fis Gorffennaf, gan fyddai'r blodau ar eu gorau bryd hynny.
- (2) Bod Covid-19 wedi newid y sefyllfa rhywfaint.
- (3) Penderfynodd y Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin i gario ymlaen efo'r Gystadleuaeth Garddio, a gofyn i Peter Garlick os yw'n gallu beirniadu, oedd erbyn hyn wedi cytuno i wneud hynny.

Nodwyd bod gerddi pobl wedi bod yn gysur mawr iddyn nhw yn ystod cyfnod Covid-19.

Nodwyd ymhellach dylai'r Gystadleuaeth gynnwys tynnu lluniau'r gerddi a'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol er mwyn eu harddangos (gan roi sylw arbennig i'r gerddi), ac y dylid ceisio denu cystadleuwyr newydd y flwyddyn yma.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc:

- (1) Hysbysu'r Gystadleuaeth Garddio drwy roi ffurflen ar y wefan a pharatoi Datganiad i'r Wasg, gyda dyddiad cau i bobl gystadlu o ganol mis Gorffennaf.**
- (2) Yn ogystal â'r ffurflen, dylai cystadleuwyr fedru mynegi diddordeb i gystadlu drwy ffonio Adeilad yr Institiwt.**
- (3) Y dylid ceisio denu plant ysgol i gymryd rhan yn y gystadleuaeth y flwyddyn nesaf.**
- (4) Cynnal cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Adloniant ddiwedd yr Haf er mwyn ceisio cynllunio ymlaen ar gyfer digwyddiadau fel Sul y Cofio.**

Gorffennodd y cyfarfod am 6.00 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____